

Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, nos Fercher, 7 Mai 2025, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a'i ragflaenodd.

PRESENNOL

Y Cynghorydd Ms. J. McAlpine (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs. J. Chamberlain-Jones, S. Feeney, K.R. Jones, Mrs. D.L. King, B. Mellor, W. Price, Ms. R. Roberts, Ms V. Roberts ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol

Mrs E. Chard – Arsylwr
A. James - Arsylwr
Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Mrs H. J. Mead – Dirprwy Glerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Swyddog Dinesig a Chymorth Gweinyddol

62. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE a Ms J. L. McAlpine.

63. PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd penodedig

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd A.J. Rutherford yn gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

64. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd Clerc y Dref a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w ddatgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'r ystyried ar yr agenda.

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

65. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a **PENDERFYNWYD** fel y nodir wrth y cais.

Nodyn 1: Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

Nodyn 2: Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl

geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO	
65.1	<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 19 Golygfa Clwyd, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 4FN <u>WARD:</u> Trellewelyn <u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. M. Blakeley-Walker W. Price Ms. V. Roberts <u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2025/0170 <u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu balconi llawr cyntaf ac ystafell ardd sengl yng ngefn yr annedd <u>YMGEISYDD:</u> Mr Martin Griffiths <u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i>
65.2	<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 53 Rhodfa Pendre, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 4NH <u>WARD:</u> Trellewelyn <u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. M. Blakeley-Walker W. Price Ms. V. Roberts <u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2025/0171 <u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu estyniad deulawr ar ochr yr annedd a gwaith cysylltiedig <u>YMGEISYDD:</u> Mr a Mrs Damien a Charlotte Larkin <u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i>
65.3	<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Cartref Nyrsio Preswylfa, 20 Ffordd Russell, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3DD <u>WARD:</u> Plastirion <u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. J. Evans K.R. Jones <u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2025/0180 <u>DISGRIFIAD:</u> Ail-docio coeden sycamorwydden rhif T23 sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed RHU/2/41/1988 <u>YMGEISYDD:</u> Mr Hall (Akari Care Cymru Ltd) <u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i>

65.4	<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 7 Ffordd Rosehill, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 4TN <u>WARD:</u> Derwen <u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. J. Chamberlain Jones Mrs. E.M. Chard Miss S. Roberts <u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2025/0063 <u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu estyniad deulawr ar ochr yr annedd ac estyniad llawr cyntaf ar gefn yr annedd <u>YMGEISYDD:</u> Mr a Mrs Mark a Lyssa Foulds <u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i>
65.5	<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Uned A5 ac A6 Parc Cyflogaeth Ffordd Cefndy, Y Rhyl, Sir Ddinbych <u>WARD:</u> Derwen <u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. J. Chamberlain Jones Mrs. E.M. Chard Miss S. Roberts <u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2025/0184 <u>DISGRIFIAD:</u> Newid defnydd o ddefnydd diwydiannol ysgafn (defnydd Dosbarth B1) i ddefnydd cyfosod a hamdden (defnydd Dosbarth D2) <u>YMGEISYDD:</u> Mr David Lorey (Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig) <u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i>
65.6	<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Cartref Preswyl The Nash, 10 - 12 Ffordd Churton, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3NB. <u>WARD:</u> Plastirion <u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs J. M. Evans K. R. Jones <u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2025/0189/TP <u>DISGRIFIAD:</u> Torri tair coeden (Leylandi, sycamorwydden ac onnen) sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed <u>YMGEISYDD:</u> Mrs Margaret Spencer <u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i>

66. YMGYNGHORIAD CYN CYFLWYNO CAIS CYNLLUNIO

Derbyniodd y Pwyllgor fanylion ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio (copi wedi'i ddosbarthu gyda'r agenda) ynghylch datblygiad yng Nghartref Preswyl Dewi Sant, Y Rhyl.

PENDERFYNWYD y byddai aelodau'r ward yn ymateb yn uniongyrchol i'r datblygwr gydag unrhyw bryderon yn deillio o'r ymgynghoriad, yn enwedig o ran parcio ar Ffordd Tarleton.

67. DIWEDD Y CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod:

Dyddiad: